



Helpu Cymru i leihau
ei Hôl Troed Carbon
Help Wales reduce
its Carbon Footprint



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd Fersiwm Gryno



Hydref 2010



ISBN 978 0 7504 5723 1

© Hawlfraint y Goron 2010

WAG10-03167

F0021011



Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd

Fersiwn Gryno

Y newid yn yr hinsawdd yw un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r byd - ac un y mae angen i ni i gyd fynd i'r afael â hi.

Mae gan Lywodraeth y Cynulliad swyddogaeth glir wrth fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Mae ein Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd, ynghyd â'r Cynlluniau Cyflawni cysylltiedig yn cadarnhau ein hymrwymadau, y meysydd y byddwn yn mynd i'r afael â hwy, a sut y byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i leihau allyriadau nwyon tŷgwydr a galluogi ymaddasu effeithiol yng Nghymru.

Mae'r crynodeb hwn yn cynnig trosolwg o'r Strategaeth a'r Cynlluniau Cyflawni cysylltiedig. Cewch fwy o wybodaeth am ddull strategol Llywodraeth y Cynulliad o ymdrin â'r newid yn yr hinsawdd, ynghyd â'r Strategaeth lawn, y Cynlluniau Cyflawni a'r crynodebau sector eraill yn:

www.cymru.gov.uk/newidhinsawdd



Her y newid yn yr hinsawdd

Mae ein hinsawdd yn newid. Erbyn hyn, mae yna achos gwyddonol amlwg bod y newid hwn yn cael ei achosi gan bobl. Newid yn yr hinsawdd nad yw'n cael ei reoli yw un o'r bygythiadau mwyaf difrifol sy'n wynebu'r byd gan ei fod yn tarfu ar batrwm glawiad, heulwen, gwyntoedd a cheryntau'r moroedd. Mae'n bygwth elfennau sylfaenol bywyd i bobl ac amgylcheddau ledled y byd, gan gynnwys mynediad i ddŵr, cynhyrchiant bwyd, iechyd a defnydd tir.

Mae angen mynd ati ar frys ac yn ddiflino i leihau allyriadau yn fyd-eang er mwyn atal effeithiau gwaethaf newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol. Ar yr un pryd, rydym yn cydnabod y byddwn yn profi rhywfaint o newid yn yr hinsawdd waeth pa mor effeithiol y bydd polisiau o ran lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, a bydd angen i ni addasu i hynny.

Er ein bod yn cydnabod pwysigrwydd gweithredu ar y cyd ar lefel y DU, yr UE ac yn fyd-eang, mae'r Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd yn amlinellu rôl arweiniol Llywodraeth y Cynulliad ac yn tynnu sylw at y cyfrifoldeb sydd arnom ni i gyd i fynd i'r afael ac achosion a chanlyniadau'r newid yn yr hinsawdd.


Cyflawni ar y newid yn yr hinsawdd: Strategaeth ar gyfer Cymru

Mae'r Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd a'r Cynlluniau Cyflawni cysylltiedig ar Leihau Allyriadau ac Ymaddasu, yn amlinellu sut yn union yr ydym yn bwriadu cyfyngu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr ac addasu i'r newidiadau yn ein hinsawdd. Er mwyn cyflawni ein hamcanion bydd gofyn i bawb wneud cyfraniad gweithredol ac arwyddocaol; mae gan bawb ohonom - yn unigolion, yn gymunedau, y trydydd sector, Llywodraeth a'r sector cyhoeddus - ran allweddol i'w chwarae os ydym am gwrdd â'n targedau.

Mae ein gweledigaeth o Gymru sydd ond yn defnyddio ei chyfran deg o adnoddau ac yn dod yn gymdeithas decach a mwy cyfiawn - a nodir yn ein Cynllun Datblygu Cynaliadwy Cymru'n Un: *Cenedl Un Blaned* - yn ganolog i'n dull o fynd ati i reoli'r newid yn yr hinsawdd. Mae ein hymateb yn seiliedig ar egwyddorion tegwch, a bydd ein polisïau hefyd yn hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol.

Dyma'r meysydd allweddol y byddwn yn canolbwyntio arnynt:

- Agwedd gynhwysfawr at newid ymddygiad.
- Arwain trwy esiampl yn Llywodraeth y Cynulliad a'r sector cyhoeddus ehangach trwy ystyried newid yn yr hinsawdd wrth ddod i bob penderfyniad.
- Sicrhau bod ynni'n cael ei ddefnyddio'n fwy effeithiol, gan wneud trafniadaeth carbon isel yn realiti, a meithrin y sgiliau sydd eu hangen i sicrhau y gall Cymru fanteisio'n llawn ar gyfleoedd a ddaw yn sgil economi carbon isel.
- Manteisio'n llawn ar gyfleoedd i leihau allyriadau ac ymaddasu i newid yn yr hinsawdd lle mae ein hadnoddau naturiol, ein patrymau rheoli tir a'n sefyllfa economaidd yn caniatáu hynny.

- 
- Sicrhau bod ein hagwedd at ymchwil a datblygu, technoleg, arloesedd a sgiliau'n helpu Cymru i gael y budd mwyaf posibl o fusnes ac ymchwil sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd.
 - Creu fframwaith i gefnogi ymaddasu effeithiol sy'n bodloni anghenion y rhai mwyaf anghenus a'r rhai llai abl i ymaddasu.
 - Sicrhau bod defnydd tir a chynllunio gofodol yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy ac yn hwyluso symud tuag at economi carbon isel sy'n ystyried effeithiau'r hinsawdd yn y dyfodol.

Ein targedau

Lleihad blynyddol o 3 % mewn allyriadau

Trwy *Cymru'n Un: Rhaglen Flaengar ar gyfer Cymru*, rydym wedi ymrwymo i leihau allyriadau nwyon tŷgwydr 3 % y flwyddyn yn y meysydd sydd wedi'u datganoli erbyn 2011. Mae'r targed hwn:

- Yn berthnasol i'r "fasged" o chwe nwy tŷgwydr - carbon deuocsid, methan, ocsid nitrad, hydrofflorocarbonau, perfflorocarbonau a sylffwr hecsafflorid.
- Yn cynnwys yr holl allyriadau nwyon tŷgwydr 'uniongyrchol' yng Nghymru (ar wahân i'r rheini a gynhyrchir gan ddiwydiannau trwm a chynhyrchu ynni) ac mae hefyd yn cynnwys yr allyriadau sy'n gysylltiedig â'r trydan a ddefnyddir gan y defnyddwyr terfynol yng Nghymru.

O ganlyniad, mae'r targed o 3 % yn cynnwys tua 69 % o gyfanswm yr allyriadau nwyon tŷgwydr yng Nghymru.

Llinell sylfaen

Er mwyn mesur y targed, byddwn yn cymharu'r allyriadau perthnasol bob blwyddyn o 2011 ymlaen â llinell sylfaen. Bydd y llinell sylfaen hon yn ffigur cyfartalog o'r allyriadau perthnasol rhwng 2006 a 2010. Gan ddechrau gyda gostyngiad o 3 % yn 2011, y targed yw lleihau allyriadau nwyon tŷgwydr 3 % yn fwy o gymharu â'r llinell sylfaen bob blwyddyn.

Lleihau allyriadau o leiaf 40 % erbyn 2020

Rydym hefyd wedi ymrwymo i sicrhau gostyngiad o 40 % o leiaf yn yr holl allyriadau nwyon tŷgwydr yng Nghymru erbyn 2020 yn erbyn llinell sylfaen 1990.

Targedau'r sectorau ar gyfer lleihau allyriadau

Er mwyn darparu targedau heriol, a galluogi pob sector i gael digon o hyblygrwydd i adnabod a mabwysiadu mesurau newydd ar yr un pryd, rydym wedi gosod ystod o dargedau ar gyfer isafswm y lleihad mewn allyriadau y byddem yn disgwyl ei weld gan bob sector a byddem yn gobeithio eu gweld yn rhagori arnynt dros yr un cyfnod. Cynhwysir y sectorau canlynol o fewn y targedau hyn:

- Trafnidiaeth
- Preswyl
- Busnes (o fewn y targed o 3 % fel y'i diffinwyd ynghynt)
- Amaethyddiaeth a defnydd tir
- Y sector cyhoeddus
- Y sector gwastraff.

Ar gyfer allyriadau uniongyrchol y sector cyhoeddus o'i adeiladau, gosodwyd uchafswm ar gyfer lefel yr allyriadau yn 2020 i adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i'r sector cyhoeddus arwain drwy esiampl er mwyn cyfyngu ar allyriadau.

Mae'r adrannau canlynol a'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleihau Allyriadau yn rhoi mwy o fanylion am y targedau hyn.

Ymaddasu


Yn wahanol i leihau allyriadau, nid oes yna un mesur meintiol ar gyfer ymaddasu'n effeithiol. Nid ydym yn gosod targedau cyffredinol ar gyfer ymaddasu gan fod ymaddasu'n broses sy'n ymwneud ag asesu a mynd i'r afael â risgiau a chanlyniadau mewn meysydd penodol. Yn lle hynny, byddwn yn datblygu dangosyddion perfformiad penodol i fesur cynnydd mewn meysydd penodol.

Y camau gweithredu

Er mwyn mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd bydd gofyn i ni ystyried goblygiadau ein holl weithredoedd o ran y newid yn yr hinsawdd a gwneud penderfyniadau ar sail y canlyniadau hynny. Mae hefyd yn gofyn am ddatblygu polisiâu sy'n ymdrin â'r materion sy'n berthnasol i wahanol sectorau a lleoedd o ran lleihau allyriadau ac ymaddasu'n effeithiol. Ceir crynodeb o'r camau gweithredu ar gyfer pob sector yn y ddogfen hon, a gallwch weld mwy o fanylion yn y Cynlluniau Cyflawni - ar gyfer Lleihau Allyriadau ac Ymaddasu (mae'r rhain i'w gweld yn: www.cymru.gov.uk/newidhinsawdd)

Wrth ddatblygu ein Strategaeth, daeth yn glir bod yna nifer o feysydd allweddol sy'n pontio'r holl agenda newid yn yr hinsawdd ond sy'n sail i'r camau gweithredu ym mhob sector. Dyma sut y byddwn yn rheoli'r materion trawsbynciol hyn:

- **Cefnogi newid ymddygiad** drwy helpu pobl i leihau'r adnoddau a ddefnyddiant a'u galluogi i ystyried y peryglon a ddaw yn sgil newid yn yr hinsawdd.
- **Ymchwil ac arfer da:** mae'r economi carbon isel yn faes ymchwil sy'n flaenoriaeth i Lywodraeth y Cynulliad.
- **Arloesedd a sgiliau:** helpu busnesau Cymru i ddatblygu ac arloesi drwy ein rhaglen 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd'.
- **Adeiladau:** rydym wedi cryfhau Polisi Cynllunio Cymru i adlewyrchu ein hymrwymiadau ar newid yn yr hinsawdd, ac wedi ehangu ein pwerau i'n galluogi i osod safonau uchelgeisiol ar gyfer adeiladau newydd.

- 
- **Cynhyrchu ynni:** byddwn yn hybu pobl i ddefnyddio llai o ynni a'i ddefnyddio'n fwy effeithlon, ac yn cynhyrchu cymaint â phosibl o ynni adnewyddadwy a charbon isel yng Nghymru.
 - **Bwyd:** byddwn yn edrych yn eang ar gynhyrchu, dosbarthu a defnyddio bwyd yng Nghymru fel y gallwn fynd i'r afael ag effeithiau cysylltiedig y newid yn yr hinsawdd.

Lleihau allyriadau yn y sector trafnidiaeth

Cyfran yr allyriadau NTG yng Nghymru (yn seiliedig ar yr allyriadau NTG cyfredol o'r sector hwn)	20 % (bras amcan)
Llinell sylfaen (MtCO ₂ e, cyfartaledd 2006-2008)	7.14
Ystod targed 2020 (MtCO ₂ e)	5.21 - 5.78

Mae'r sector trafnidiaeth yn un maes lle gall yr unigolyn wneud llawer i leihau allyriadau drwy wneud dewisiadau doethach, er enghraifft trwy yrru'n fwy effeithlon, neu drwy gerdded a seiclo. Rydym hefyd yn cydnabod, wrth i ni ofyn i bobl fod yn llai dibynnol ar eu ceir eu hunain, fod yn rhaid i ni hybu buddsoddiad i wella gwasanaethau bysiau a rheilffyrdd. Gallwn leihau allyriadau drwy wella'n dulliau rheoli traffig a gostwng nifer y cerbydau sy'n mynd i'n trefi a'n dinasoedd mwyaf drwy ddatblygu Canolfannau Trafnidiaeth Gynaliadwy. Mae gan fusnesau ran bwysig i'w chwarae hefyd, ac rydym yn bwriadu edrych ar sut y gallwn helpu busnesau i gludo nwyddau'n fwy effeithlon.


Dyma rai o'n camau i leihau allyriadau yn y sector trafnidiaeth:

- Datblygu Canolfannau Teithio Cynaliadwy, a chefnogi Dewisiadau Doethach.
- Hyrwyddo eco-yrru, cerdded a beicio.
- Buddsoddi mewn gwasanaethau bysiau a rheilffyrdd, a gwella'r trefniadau rheoli traffig.
- Hyrwyddo'r seilwaith ar gyfer cerbydau trydan a hydrogen.

Lleihau allyriadau yn y sector busnes

Cyfran yr allyriadau NTG yng Nghymru (yn seiliedig ar yr allyriadau NTG cyfredol o'r sector hwn - heb gynnwys allyriadau uniongyrchol o ddiwydiannau trwm a chynhyrchu ynni)	30 % (bras amcan)
Llinell sylfaen (MtCO ₂ e, cyfartaledd 2006-2008)	11.41
Ystod targed 2020 (MtCO ₂ e)	8.33 - 10.30

Mae'r Strategaeth yn amlinellu sut yr ydym yn bwriadu rhoi'r cyngor a'r gefnogaeth i fusnesau i'w galluogi i leihau gollyngiadau ac ymdopi â her y newid yn yr hinsawdd, yn enwedig busnesau bach a chanolig a diwydiannau sy'n defnyddio llawer o ynni. Yn ogystal â chanfod a rhannu'r arferion gorau, mae angen i ni wella ein sgiliau ymchwil a datblygu fel y gall busnesau fod mewn sefyllfa well i fanteisio ar gyfleoedd newydd yr economi werdd. Drwy wneud defnydd mwy effeithiol o wres gwastraff a gwella'u heffeithlonrwydd ynni gall busnesau leihau eu hallyriadau a gwneud mwy o elw. Fel ag yn achos trafndiaeth, mae'r system cynllunio defnydd tir yn hanfodol i alluogi datblygiad carbon isel, ac fe gaiff ei defnyddio i helpu busnesau i addasu'n well i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.



Mae ein camau i leihau allyriadau yn y sector busnes yn cynnwys:


- Mwy o gefnogaeth i fusnesau, gan gynnwys Busnesau Bach a Chanolig
- Cefnogi gwaith ymchwil a datblygu, datblygu busnes a sgiliau er mwyn sicrhau bod Cymru'n manteisio ar gyfleoedd yr economi werdd newydd
- Rhannu arferion da yn well ar draws busnesau
- Sicrhau bod llai o adnoddau'n cael eu defnyddio a bod gwastraff yn cael ei ystyried yn adnodd i'w ddefnyddio
- Sicrhau bod y system gynllunio'n galluogi datblygiadau carbon isel.

Lleihau allyriadau yn y sector preswyl

Cyfran yr allyriadau NTG yng Nghymru (yn seiliedig ar yr allyriadau NTG cyfredol o'r sector hwn)	20 % (bras amcan)
Llinell sylfaen (MtCO ₂ e, cyfartaledd 2006-2008)	7.48
Ystod targed 2020 (MtCO ₂ e)	5.46 - 6.04

Gallai llawer ohonom leihau'r allyriadau o'n cartrefi ac mae'r Strategaeth yn amlinellu sut y gellir cefnogi cymunedau ac unigolion drwy raglenni newid ymddygiad a ddarperir yn lleol sydd wedi'u teilwra i'w anghenion. Caiff cyllid uniongyrchol ar gyfer effeithlonrwydd ynni a mesurau carbon isel eu targedu at y rheini sydd mewn tloidi tanwydd, ond byddwn hefyd yn edrych ar atebion posibl ar gyfer aelwydydd sy'n 'abl i dalu' a bydd Bargaen Werdd Llywodraeth y DU yn bwysig yn y cyd-destun hwn. Yn y dyfodol, byddwn yn gosod y safonau uchaf ar gyfer adeiladau newydd ac yn defnyddio'r system cynllunio defnydd tir i ddatblygu amgylchedd adeiledig cynaliadwy a gwydn. Bydd ein camau i leihau allyriadau yn y sector preswyl yn cynnwys:

- Annog y gwaith o roi mesurau effeithlonrwydd ynni cost effeithiol ar waith ym mhob cartref a mabwysiadu dull gweithredu 'tŷ cyfan'.
- Datblygu dull gweithredu fesul ardal o fynd i'r afael ag effeithlonrwydd ynni yn y cartref.
- Targedu buddsoddiad at y rheini sydd mewn perygl o



ddioddef tlodi tanwydd, a chefnogi cynhyrchiant ynni ar raddfa gymunedol.

- Sicrhau bod penderfyniadau cynllunio defnydd tir yn cael eu llywio gan yr angen i leihau allyriadau.

Lleihau allyriadau yn y sector amaethyddiaeth a defnydd tir

Cyfran yr allyriadau NTG yng Nghymru (yn seiliedig ar yr allyriadau NTG cyfredol o'r sector hwn)	15 % (bras amcan)
Llinell sylfaen (MtCO ₂ e, cyfartaledd 2006-2008)	5.57
Ystod targed 2020 (MtCO ₂ e)	4.07 - 4.97

Bydd Glastir, ein cynllun rheoli tir newydd, yn sicrhau gostyngiad mewn allyriadau a manteision amgylcheddol ehangach. Byddwn yn parhau i roi cyngor a chefnogaeth i'r diwydiant ffermio ac yn hwyluso creu coetiroedd newydd i wella potensial Cymru i ddal carbon.

Bydd ein camau i leihau allyriadau yn y sector amaethyddiaeth a defnydd tir yn cynnwys:

- Cynlluniau amaethyddiaeth a defnydd tir sy'n targedu lleihau allyriadau nwyon tŷgwydr.
- Creu mwy o goetiroedd.
- Cyngor a chefnogaeth i ffermwyr a rheolwyr tir.

Effeithlonrwydd adnoddau a lleihau allyriadau yn y sector gwastraff

Cyfran yr allyriadau NTG yng Nghymru (yn seiliedig ar yr allyriadau NTG cyfredol o'r sector hwn)	4 % (bras amcan)
Llinell sylfaen (MtCO ₂ e, cyfartaledd 2006-2008)	1.30
Ystod targed 2020 (MtCO ₂ e)	0.64 - 0.95

Mae gan unigolion, sefydliadau a'r sector cyhoeddus ran fawr i'w chwarae wrth wneud, neu annog, dewisiadau ar ddefnyddio adnoddau. Drwy edrych yn fwy beirniadol ar yr hyn yr ydym yn ei ddefnyddio, a faint ohono a ddefnyddiwn, gallwn leihau allyriadau'n gyson yn y sector gwastraff.

Mae ein camau i leihau allyriadau yn y sector gwastraff yn cynnwys:

- Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o safleoedd tirlenwi.
- Lleihau allyriadau anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â defnyddio adnoddau trwy gynyddu prosesau aildefnyddio, ailgylchu a chompostio.
- Gweithredu ein Strategaeth Wastraff a Chynlluniau'r Sectorau.

Lleihau allyriadau yn y sector cyhoeddus

Cyfran o'r targed 3% (yn seiliedig ar yr allyriadau NTG cyfredol o'r sector hwn)	4 % (bras amcan)
Llinell sylfaen (MtCO ₂ e, cyfartaledd 2006-2008)	1.13
Ystod targed 2020 (MtCO ₂ e)	0.83

Er bod lefel yr allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru'n gymharol isel o gymharu â sectorau eraill, mae gan y sector cyhoeddus ran allweddol i'w chwarae o ran rhoi arweiniad, datblygu a rhannu arferion da, a gosod esiampl i sefydliadau eraill. Mae'r Strategaeth a'r Cynlluniau Cyflawni'n amlinellu sut yr ydym yn bwriadu gwella perfformiad ynni adeiladau'r sector cyhoeddus yng Nghymru, a lleihau ôl troed carbon ystad Llywodraeth y Cynulliad, addysg a gwasanaethau iechyd.

Mae ein camau i leihau allyriadau yn y sector cyhoeddus yn cynnwys:

- Cynnwys newid yn yr hinsawdd mewn Strategaethau Cymunedol trwy roi canllawiau a rhannu arferion da.
- Lleihau ôl troed carbon ystad Llywodraeth y Cynulliad.
- Lleihau ôl troed carbon addysg a gwasanaethau iechyd.
- Sicrhau bod perfformiad ynni adeiladau'r sector cyhoeddus yn cyrraedd safon uwch.

Sut bydd y newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar Gymru?

O ganlyniad i'r allyriadau cyfredol a'r rheini sydd wedi digwydd eisoes, ni allwn osgoi effeithiau newid yn yr hinsawdd yn gyfan gwbl. Oherwydd hynny, mae angen i ni ystyried sut y byddwn yn ymaddasu i'r newidiadau a fydd yn effeithio ar sawl agwedd ar ein bywydau yn y dyfodol.

Mae'r newid yn yr hinsawdd yn broses gymhleth, sy'n ei gwneud yn anodd iawn darogan yn union beth fydd yn digwydd, lle a phryd. Ond mae ein dealltwriaeth o'r newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol yn gwella ac rydym yn defnyddio gwybodaeth ac offer newydd i'n helpu i ddeall sut bydd canlyniadau newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar ein heconomi, ein hamgylchedd a'n cymdeithas.

Gan ddefnyddio senarios hinsawdd o UKCP09, mae Cymru'n debygol o weld y tymheredd yn codi rhwng 2.0 a 2.5°C erbyn 2050.

Rhagfynegir y bydd y glawiad blynyddol cyffredinol yng Nghymru yn aros ar yr un lefel fwy neu lai, ond mae'n debygol y bydd gwahaniaethau sylweddol rhwng patrymau'r glawiad yn yr haf a'r gaeaf yn y dyfodol.

Mae lefel y môr yn debygol o godi yng Nghymru yn y dyfodol gan arwain at erydu arfordirol mwy difrifol, ac mae mwy o lifogydd o'r môr yn debygol o ddigwydd mewn ardaloedd arfordirol isel.

Mae ein canllaw byr *Y Newid yn yr Hinsawdd: ei effeithiau ar Gymru* yn rhoi mwy o wybodaeth am effeithiau disgwylidig y newid yn yr hinsawdd: www.cymru.gov.uk/newidhinsawdd.

Ymaddasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd

Gorau po gyntaf y bydd Cymru'n dechrau paratoi ar gyfer effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, fel y gall ymdopi'n well â'n hinsawdd yn y dyfodol.

Oherwydd hynny, byddwn yn cyflwyno dull cenedlaethol, cydlynol, trwy ein Fframwaith Ymaddasu er mwyn sicrhau bod Cymru yn y sefyllfa orau i ymaddasu i hinsawdd newidiol.

Nod y dull Fframwaith yw mynd i'r afael â pha mor agored yw Cymru i effeithiau newid hinsawdd drwy:

- Adeiladu'n sylfaen dystiolaeth ar effeithiau yn y dyfodol.
- Prif ffrydio ymaddasu er mwyn meithrin gallu o fewn sefydliadau a chymunedau.
- Cyfathrebu ar ymaddasu er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau'n deall y risgiau a'r cyfleoedd ac yn gallu ymdopi â hwy.

Cefnogir ein Fframwaith Ymaddasu gan ddarpariaethau'r Ddeddf Newid Hinsawdd (2008), sy'n darparu Gweinidogion â phwerau arbennig i gynorthwyo â'r gwaith o ymaddasu i newid yn yr hinsawdd.

Ceir mwy o fanylion yn y Strategaeth lawn a'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Ymaddasu.